**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon**
**Minister for Culture, Tourism and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA - P/DET/1320/18

Bethan Sayed AC
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Ebrill 2018

Annwyl Bethan

Rwy'n ysgrifennu ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei ganfyddiadau ynghylch yr adolygiad annibynnol o gymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru.

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn.

Mae gwaith ardderchog eisoes yn cael ei wneud ar draws y sector. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi cael cyfle i weld hyn yn uniongyrchol, wrth i'r cyrff perthnasol barhau i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae bellach yn hanfodol bod pawb sy'n gysylltiedig â hyn yn barod i weithio mewn partneriaeth, gan wneud hynny mewn ffordd agored ac ymddiried yn ei gilydd, i sicrhau bod y sector yn mynd o nerth i nerth, gan gyflawni mwy i bobl ledled Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at barhau i weithio'n agos gyda'r holl randdeiliaid allweddol wrth i ni symud ymlaen.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Gweinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon
Minister for Culture, Tourism and Sport

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i ganfyddiadau'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch yr adolygiad annibynnol o gymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru.**

**17 Ebrill 2018**

---

**Cyflwyniad**

Rydym yn croesawu canfyddiadau'r Pwyllgor. Bydd ei gasgliadau a'i argymhellion yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru wrth i ni baratoi ein hymateb ffurfiol i adroddiad y Panel adolygu annibynnol, yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi cyn toriad yr haf.

Rydym yn cynnig yr ymateb a ganlyn i'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi'r holl ddogfennau a restrir ym mharagraff 49 yr adroddiad hwn ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y panel annibynnol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Er mwyn bod yn agored ac atebol, rhoddodd Llywodraeth Cymru y dogfennau perthnasol i'r Pwyllgor. Byddwn yn cyhoeddi'r dogfennau hyn maes o law. Wrth gwrs, bydd rhyddhau'r dystiolaeth yn amodol ar fynd ati ymlaen llaw i ystyried diogelu data, preifatrwydd a sensitifrwydd masnachol. Byddwn yn ceisio cwblhau'r ymarfer hwn cyn gynted ag y bo modd.

Mae rhai o'r dogfennau y cyfeirir atynt ym mharagraff 49 yn eiddo i Gyngor Celfyddydau Cymru. Felly, mater i Gyngor y Celfyddydau yw ymateb i'r argymhelliad hwn yng nghyd-destun y dogfennau hynny. Byddwn yn trafod hyn gyda Chyngor y Celfyddydau a byddwn yn ei annog i ymateb yn yr un modd.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull agored a thryloyw yn y dyfodol wrth benodi aelodau paneli ymgynghorol a chyrff tebyg, pan na fydd angen dilyn proses benodi gyhoeddus lawn.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn dilyn dull cystadleuol agored a thryloyw wrth benodi aelodau paneli a chyrff tebyg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ond nid oes bwriad ar hyn o bryd i adolygu sut y penodir aelodau gwpiau gorchwyl a gorffen.

Dylid nodi fod yr opsiwn o benodi grŵp gorchwyl a gorffen penodol drwy gystadleuaeth agored a thryloyw eisoes ar gael i  Weinidogion Cymru er nad yw hynny'n ofynnol.

**Goblygiadau Ariannol**  – Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell na ddylid bwrw ymlaen â chynigion y panel i drosglwyddo swyddogaethau o Lenyddiaeth Cymru i Gyngor Llyfrau Cymru heb ragor o waith dadansoddi beirniadol a heb ystyried y mater eto. Dylai'r Gweinidog oedi ac ystyried ein safbwyntiau cyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â chynigion eraill y panel.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Ar ôl cyhoeddi adroddiad y Panel Adolygu, derbyniodd Llywodraeth Cymru sylwadau ysgrifenedig manwl gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru ar briodoldeb a gwerth strategol argymhellion amrywiol yr adroddiad. Cynhaliodd fy swyddogion nifer o gyfarfodydd adeiladol hefyd gydag uwch-arweinwyr y tri sefydliad, i drafod ymarferoldeb yr adroddiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y corff cyfan hwn o dystiolaeth, gan gynnwys canfyddiadau'r Pwyllgor, wrth i ni baratoi ein hymateb ffurfiol i adroddiad y Panel.

Mae gwaith ardderchog eisoes yn cael ei wneud ar draws y sector. Bydd ymateb Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr angen i'r sefydliadau gydweithio mwy, gan wneud hynny mewn ffordd agored ac ymddiried yn ei gilydd, i sicrhau bod y sector yn mynd o nerth i nerth.

Mae nifer o argymhellion y Panel ar gyfer yr asiantaethau darparu perthnasol. Yn unol â'r 'egwyddor hyd braich', byddwn yn disgwyl i Gyngor Celfyddydau Cymru a Llenyddiaeth Cymru (o ran llenyddiaeth) a Chyngor Llyfrau Cymru (o ran cyhoeddi) ymateb i'r argymhellion hynny a ddarperir iddynt hwy eu hystyried. Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymateb i rai o'r argymhellion hyn hefyd, os yn briodol, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel corff sy'n noddi'r asiantaethau hyn. Byddwn yn trafod hyn gyda'r tri sefydliad, yn ôl yr angen, cyn cwblhau ein hymateb.

Mae wyth o 'argymhellion eraill' y Panel ar gyfer Llywodraeth Cymru yn benodol. Gan fod rhai o'r rhain yn gyfrifoldeb i Weinidogion eraill, neu y byddai angen eu cefnogaeth, rwyf wrthi'n ymgynghori â chydweithwyr ar rinweddau'r cynigion hyn ac ar unrhyw oblygiadau ariannol. Bydd ein hymateb i'r argymhellion hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o'n hymateb ffurfiol i adroddiad y Panel. Fy mwriad yw y bydd Cynllun Gweithredu yn cyd-fynd â hyn, yn manylu ar y camau gweithredu rydym yn bwriadu eu cymryd, ochr yn ochr â'r camau gweithredu y bydd yr asiantaethau eraill yn eu cymryd i gefnogi datblygiad llenyddiaeth a chyhoeddi yng Nghymru yn y dyfodol. Byddaf yn disgwyl cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Dim ar hyn o bryd. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu o gyllidebau rhaglenni presennol.